

Trawsgwricwlaidd

Mae gan athrawon cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Mae'r gair trawsgwricwlaidd yn golygu cyfuno agweddau gwahanol at ei gilydd. Yn ogystal â hyn mae yna nifer o agweddau a safbwyntiau gwahanol yn cael ei hystyried.

Yn ôl Donaldson mae angen creu dysgwyr 'have the skills to connect and apply that knowledge in different contexts' (Donaldson, 2015, Tud. 23)

Cydnabyddir Barnes fod dysgu'n ffordd greadigol yn galluogi'r disgyblion i wella a datblygu'n ffordd gadarn, â mwynhad yn ogystal â datblygu nifer wahanol o sgiliau megis llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. Mae ganddo wyth wahanol fodel i ddatblygu'r sgiliau yma, yn amlwg, ni fydd y modelau i gyd yn addas at bob cyfnod ac ysgol. Awgrymir dewis dau i weithio ag.

CYFRIFOLDEBAU TRAWSGWRICWLAIDD

PAM?

Gan ystyried y canfyddiadau a chyfleu'r gan Estyn mae angen pwysleisio nifer o bethau yn ein hysgolion megis ,

- Annibyniaeth, am do nifer fawr o ddisgyblion yn "dibynnu'n oremol ar gyfarwyddyd gan oedolyn" (Estyn , 2017, Tud.7) . Gan ddefnyddio'r themâu yma mae'n galluogi'r disgyblion i fynegi barn am beth maent eisiau dysgu.
- Mae angen mwy o gyfleoedd i ddisgyblion allu siarad ag oedolyn am ei diddordebau, mae'r modelau o dan drafodaeth yn creu cyfleoedd i wneud hyn trwy ddefnyddio thema addas neu gynorthwyo gwers a phwnc mwy sbri i greu cyfleoedd i drafod y materion yma.

Modelau

Y modelau a fydd yn addas at y gweithgareddau a gynlluniwyd ydy, hierarchaidd a'r model sydd yn seiliedig ar thema benodol. Cydnabyddir bod yna modelau eraill a fydd yn addas i gyfnodau arall. Canolbwyntia'r y modelau yma am ei bod yn addas iawn at y Cyfnod Sylfaen (CS)

Hierarchaidd

- Canolbwyntio ar un maes dysgu megis llythrennedd
- Defnyddio pwnc arall megis cerddoriaeth i gefnogi
- Defnyddio diddordebau'r disgyblion i sicrhau mae'r dasg yn cael ei ddeall yn gywir.

Thema

- Defnyddio un thema i gefnogi ystod o weithgareddau.
- Rhoi dyfnder i'r hyn mae'r disgyblion yn addysgu
- Galluogi'r athro/athrawes i dynnu at ddau neu dri phwnc gwahanol i gynorthwyo'r dysgu.

Cryfderau a gwendidau'r modelau

Hierarchaidd - Mae yna gyfleoedd i'r athro gynllunio gwers llythrennedd, weithiau mae hyn yn gallu diflasu'r unigolion, mae hyn yn galluogi'r disgyblion i deimlo teimladau o fwynhad o'r addysgeg sydd yn helpu hwy â hyder sydd yn cynorthwyo un o bedwar dibenion Donaldson sef 'unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' Donaldson (2015). Yn ogystal, gall yr athrawon teimlo fwy o hyder yn dysgu gwersi megis cynorthwyo gweithgaredd llythrennedd â chanu neu trwy ddatblygu'n gorfforol.

- Angen cofio 'Nid oes disgwyl i ysgolion greu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos eu medrau mewn TGCh, rhifedd, llythrennedd neu Gymraeg ym mhob gwers.' Estyn(2015) sydd yn golygu bod ymuno dau bwnc yn gallu bod yn dechrau i athrawon sydd yn anghyfarwydd a dysgu'n drawsgwricwlaidd.

- Mae'r model yma yn un mwy syml ac efallai ni fydd y disgyblion yn cael y cyfleoedd corau allan o'i brofiadau.

Model yn seiliedig ar thema benodol

Mae'r model yn seiliedig ar thema yn un sydd yn creu cyfleoedd i ddatblygu'n llythrennol, rhifol ac yn ddigidol hefyd am fod thema yn galluogi athrawon creu cyfres o wersi Mae dysgu trwy thema yn addas iawn at y cyfnod sylfaen am ei bod yn gallu bod yn 'dinasyddion moesegol a gywbodus Cymru a'r byd' (Donaldson, 2015, Tud. 23). Mae dewis themâu Cymraeg yn galluogi'r disgyblion cyrraedd y targed cenedlaethol.

- Mae'r dysgu yn gallu cael ei wneud trwy ddiddordebau'r disgyblion yn ogystal, teilwra'r gweithgareddau o lais a dewisiadau'r disgyblion sydd yn pwysleisio annibyniaeth hefyd.

Efallai ni fydd y model yn addas am fod rhai athrawon yn ceisio ychwanegu at y wers i blesio yn hytrach nag i wir ddatblygu'r disgyblion yn y maes penodol.

Gweithgareddau yn seiliedig ar y model Thema.

Trafodir gweithgareddau posib all athrawon gwneud sydd yn manteisio ar yr hyn a chyflëir gan (Barnes 2015 tud. 69)

Awgrymir gan Barnes bod y model yma yn un llwyddiannus pryd mae'r athro yn ymwybodol am y pwnc.

- Y thema bydd Gwenllïan.

Thema Cymraeg i sicrhau ei bod yn dysgu am ei gwlad eu hun ac i daro'r sgiliau yn y cwricwlwm cymerig.

Gweithgaredd 1

Bydd yn ddisgwyliedig i'r unigolion Blwyddyn 1 fynegi barn am ddewrder Gwenllïan. Bydd yn ddisgwyliedig iddynt nodi tri brif pwynt â'i rhesymeg. B

- Bydd y disgyblion yn gweithio at y sgil llythrennedd sef 'mynegi barn am wybodaeth yn y testun' FFLIRh (2008)

Gweithgaredd 2

- Bydd angen archebu cynhwysion ar gyfer cawl Gwenllïan gan sicrhau bod ganddynt diogon o arian i wario.

- Bydd y disgyblion yn defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at 20c.' FfCD (2008)

Gweithgaredd 3

Bydd yn ddisgwyliedig i'r unigolion defnyddio 'Bee Bot' i gyrraedd cynhwysion cawl Gwenllïan a wnaeth cwmpo o'r cwydn siopa.

- Bydd nhagen ddidoli rhwng y cynhwysion addas megis moron, tatws ac i anwybyddu'r pethau megis siocled a banana.

- Bydd yr unigolion yn datblygu'r sgil, 'newid cyfarwyddiadau i gyflawni canlyniad gwahanol' FFLIRh (2008)

Gweithgareddau yn seiliedig ar y model Heirarchaidd.

Gweithgaredd 1

Bydd angen creu darn ysgrifenedig am fywyd Gwenllïan gan ddefnyddio cyfrifiadu'r w hysgrifennu. Y sgil a fydd yn cael ei ddatblygu yn llythrennol bydd

- 'dechrau defnyddio cysyllteiriau er mwyn ymhelaethu ar bwynt.' FFLIRh (2008)

Yr ail gyfle yn ystod y gweithgaredd yma i ddatblygu bydd yn un ddigidol. Er mae'r disgyblion yn defnyddio sgiliau llythrennedd bydd yn edrych ymlaen at ddefnyddio dull arall o gyflwyno'r gwaith megis yn un dechnegol.

Yr ail sgil a ddatblygwyd ydy-

- 'cydweithio gyda phartner ar ddarn o waith digidol.' FfCD (2008)

Gweithgaredd 2

Bydd angen i'r disgyblion defnyddio'i sgiliau mesur i fesur uchder tyrau'r castell gan ddefnyddio unedau ansafonol megis blociau a thedis. Yn ogystal â hyn bydd angen i'r grwpiau Mwy Abl a thalentog (MAT) creu twr eu gun sydd â mesuriad penodol.

- Y sgiliau a fydd yn cael ei ddatblygu ydy defnyddio unedau ansafonol i fesur:

- hyd, uchder a phellter. FFLIRh (2008)

Rhestr Cyfeirnod